Cyngor Dinas Bangor

Cofnodion y Cyngor Llawn

Nos Lun 29 Mehefin 2026, Neuadd y Penrhyn a thrwy 'Teams', 18.30

Yn bresennol

Cynghorwyr:	Cyng. Delyth Russell (Cadeirydd), Jackie Spence (Is-Gadeirydd), Eirian Williams Roberts, John Wynn Jones, Medwyn Hughes, Gwynant Roberts, Gareth Parry, Dylan Fernley, Samuel Njoku, Salamatu Fada, Lisa Toth, Jac Jolly
Swyddogion:	Martin Hanks, Cyfarwyddwr Dinesig Lisa Goodier, Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol
Eraill:	Sioned Elin Jones, Cyfieithydd
Ymddiheuriadau:	Cyng. Nigel Pickavance, Nick Pritchard, Elin Walker Jones, John Wyn Williams, Gareth Roberts, Huw Wyn Jones, Mustakim Raza, Steven Bell

---

Dechreuodd y cyfarfod am 18.30

Eitem	Cyfeirnod	Gweithredu
1.	**FC25/26**	**Ymddiheuriadau:** Cyng. Nigel Pickavance, Nick Pritchard, Elin Walker Jones, John Wyn Williams, Gareth Roberts, Huw Wyn Jones, Mustakim Raza, Steven Bell
2.	**FC26/26**	**Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:** Derbyniwyd datganiad o Fuddiant Ariannol a Chysylltiad Personol gan y Cynghorydd Delyth Russell yn eitem 8 ar yr agenda.
3.	**FC27/26**	**Cyfranogiad y Cyhoedd:** Dim.
4.	**FC28/26**	**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 8 Mehefin 2026:** **Penderfynwyd:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor fel rhai cywir.
5.	**FC29/26**	**Derbyn Adroddiad Archwilio Mewnol 2025-2026:** *Cafodd Adroddiad Archwilio Mewnol 2025-2026 ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.* Hysbyswyd y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Dinesig fod Adroddiad Archwilio Mewnol 2025 – 2026 wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid i'r Pwyllgor allu craffu arno.

Blaenlythrennau'r Cadeirydd: .....

Penderfynwyd:
Ar ôl trafodaeth ac ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, cytunwyd i gymeradwyo Adroddiad Archwilio Mewnol 2025-2026.

6. **FC30/26** **Cymeradwyo Datganiad Blynyddol 2025-2026:**
Roedd Datganiad Blynyddol 2025-2026 wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod.
Hysbysodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, y Cynghorydd John Wynn Jones, y Cyngor fod Datganiad Blynyddol 2025 – 2026 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid diwethaf i'r Pwyllgor graffu arno. Gofynnodd Cyfarwyddwr y Ddinas i'r Cyngor roi sylw arbennig i'r cwestiynau a atebwyd ar dudalen 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o Ddatganiad Blynyddol 2025 – 2026. Atebwyd y rhan fwyaf o'r cwestiynau fel 'Ydw', ac mae'r archwilydd wedi cytuno bod y rhain yn gywir; fodd bynnag, dylai'r Cyngor roi sylw manwl i'r rhain. Yr unig gwestiwn a atebwyd fel 'na' oedd cwestiwn 10 'Mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021', gan nad yw Cyngor Dinas Bangor yn gymwys, gan nad oes ganddo ddigon o aelodau a etholwyd yn ffurfiol.

Penderfynwyd:
Cytunwyd i gymeradwyo Datganiad Blynyddol 2025-2026 ar argymhelliad y Pwyllgor Cyllid.

7. **FC31/26** **Derbyn y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2026 – 2027:**
Hysbysodd Cyfarwyddwr y Ddinas y Cyngor fod y swm a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol 2025 - 2026 yn llai na'r hyn a ddisgwyliwyd ac a adroddwyd arni. Adroddodd fod tri aelod o'r Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod i drafod y mater hwn yn fanylach ynghylch y rhesymau pam yr oedd hyn wedi digwydd. O'r cyfarfod hwn, cytunwyd y byddai'n rhaid diwygio cyllideb 2026-2027, ac roeddent wedi cytuno ar newidiadau i'r ffigurau o dan bob pennawd cyllideb. Dywedodd Cyfarwyddwr y Ddinas y byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn gytuno'n ffurfiol ar y newidiadau.

Penderfynwyd:
Derbyn y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2026 – 2027.

8. **FC32/26** **Trafod dyfodol Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen:**
Datganodd y Cynghorydd Delyth Russell Fuddiant Ariannol a Chysylltiad Personol yn eitem 8.
Cafodd adroddiad ar gefndir Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen a chynllun busnes gan Maes Ni CLG eu cylchredeg ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod hwn.

Gan fod y Cynghorydd Delyth Russell wedi datgan gwrthdaro buddiannau yn yr eitem hon, hysbysodd y Cyngor y byddai'r Cynghorydd Jackie Spence yn cadeirio'r eitem yma.

Yna cymerodd y Cynghorydd Jackie Spence y Gadair.

Dechreuodd y Cynghorydd Spence a'r Cyfarwyddwr Dinesig drwy roi cefndir i'r sefyllfa bresennol gyda Chanolfan Ieuenctid Maesgeirchen. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn ceisio gwerthu'r adeilad ers tro i fudiad cymunedol lleol. Gan na fu unrhyw opsiynau addas eraill roeddent wedi cytuno mai'r unig ddewis addas fyddai cynnig yr adeilad ar brydles 99 neu 125 mlynedd i Gyngor y Ddinas.

Roedd yr adroddiad cefndir yn cynnwys gwybodaeth fel:-

- Mae'r costau rhedeg blynyddol, heb gynnwys y staff, tua £15,000 y flwyddyn
- Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan yn cynhyrchu tua £8-9,000 y flwyddyn drwy logi ystafelloedd
- Os trosglwyddir yr ased hwn i Gyngor y Ddinas, bydd cronfa o £244,000 yn dod gydag ef i'w defnyddio i uwchraddio'r adeilad gan Gyngor Gwynedd.
- Mae cronfa ariannu bellach o tua £440,000, sef gweddill grant loteri, a reolir gan Grŵp Llywio o drigolion lleol, dan arweiniad BCT (Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau). Mae tua £255,000 o'r gronfa honno wedi'i ddyrannu ar gyfer uwchraddio adeiladau. Neilltuwyd elfennau eraill o'r gronfa ar gyfer talu am staff ar y safle tan 2028 a'r gweddill at ddefnydd cymunedol.
- Ar hyn o bryd mae'r ganolfan yn cael ei rheoli gan Grŵp Cymuned MaesNi. Mae ganddi dri chyfarwyddwr. Mae Grŵp Cymuned MaesNi wedi paratoi Cynllun Busnes ar gyfer rhedeg y Ganolfan yn y dyfodol.

Penderfynwyd:
Ar ôl trafodaeth fanwl gan y Cyngor, cytunwyd yn ffurfiol i dderbyn prydles ar yr adeilad gan Gyngor Gwynedd i sicrhau dyfodol Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen. Cytunwyd yn ffurfiol hefyd i barhau â'r cytundeb ar gyfer rhedeg y ganolfan o ddydd i ddydd gyda MaesNi CLG.

Gadawodd y Cynghorydd Dylan Fernley y cyfarfod: 19.52.

9. **FC33/26** **Cymeradwyo amserlen cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2026-2027:**
Yna cymerodd y Cynghorydd Delyth Russell y Gadair am weddill y cyfarfod.

Cynigiwyd amserlen gyfarfodydd newydd i'r Cyngor. Roedd yr amserlen gyfarfodydd newydd yn cynnig cynnal cyfarfodydd Cyngor Llawn bob mis. Byddai is-bwyllgorau eraill fel Staffio, Asedau, Cyllid, Diogelu, yr Iaith Gymraeg, Ailgylchu, Nantporth a'r Hwb yn cyfarfod rhyngddynt.

Penderfynwyd:
Ar ôl trafodaeth, cytunwyd i ddewis opsiwn 2 a gyflwynwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, lle mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu trefnu bob dau fis ac os oes mater y mae angen ei drafod yn yr amser rhwng cyfarfodydd, dylai pwyllgor perthnasol gyfarfod i drafod y materion hynny.

10. **FC34/26** **Dderbyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Diogelu:**
Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Diogelu wedi'i ddosbarthu i'r aelodau ymlaen llaw cyn y cyfarfod.

Craffodd y Cyngor ar ddogfen Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Diogelu a thrafododd lawer o'r pwyntiau yn fanwl.

Penderfynwyd:
Ar ôl trafod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Diogelu, cytunwyd i dderbyn y ddogfen gyda'r awgrymiadau am welliannau a wnaed gan y Cyngor.

11. **FC35/26** **Derbyn Cylch Gorchwyl Pwyllgor yr Hwb:**
Roedd Cylch Gorchwyl Pwyllgor yr Hwb wedi'i ddosbarthu i'r aelodau ymlaen llaw cyn y cyfarfod.

Craffodd y Cyngor ar ddogfen Cylch Gorchwyl Pwyllgor yr Hwb a thrafododd lawer o'r pwyntiau yn fanwl.

Penderfynwyd:
Ar ôl trafod Cylch Gorchwyl Pwyllgor yr Hwb, cytunwyd i dderbyn y ddogfen gyda'r awgrymiadau am welliannau a wnaed gan y Cyngor.

12. **FC36/26** **Cefnogi BID ar gyfer digwyddiad Pride:**
Gan nad oedd gwybodaeth wedi'i darparu i'r Cyngor ymlaen llaw, darparodd Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas wybodaeth fanwl am y cais hwn.

Mae cronfa grant BID o £1,500 ar gael i gymunedau yng Nghymru i sefydlu digwyddiadau Pride newydd yn 2027 gan Pride Cymru. Telerau'r grant yw bod rhaid ei wario erbyn 31 Mawrth 2027 a bod y digwyddiad yn cael ei gynnal erbyn y dyddiad hwn. Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas y byddai'n fodlon cwblhau'r cais ar ran y Cyngor.

Awgrymodd y Cyngor y gallai cynnwys rhanddeiliaid eraill yn y cynnig ar gyfer y digwyddiad gynorthwyo gyda'r cyfraniad ariannol y byddai ei angen ar y digwyddiad hwn.

Penderfynwyd:
Cefnogi'r BID ar gyfer y cyllid grant ac i ganiatáu i weithgor digwyddiadau Cyngor y Ddinas a Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas archwilio sut y gallai Cyngor y Ddinas weithio gyda rhanddeiliaid eraill i sefydlu digwyddiad Pride ym Mangor.

Daeth y cyfarfod i ben am: 20:31.

Llofnodwyd gan: **Martin Hanks, Cyfarwyddwr Dinesig**

Dyddiad: **……**